# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 33
EBRILL 2010

Dros y blynyddoedd lluniwyd mwy nag un bregeth neu fyfyrdod ar y gweddïau dwys a dirdynnol a offrymwyd gan Iesu o groesbren Calfarî. Cofiwn amdano yn gweddïo dros ei elynion: “O Dad maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud”. Addawodd fynediad i baradwys i’r troseddwr edifeiriol: “Yn wir, rwy’n dweud wrthyt heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys” ac fe glywyd yr Iesu yn holi un o’r cwestiynau mwyaf anodd a holwyd erioed yn hanes dynoliaeth pan weddïodd: “Fy Nuw , fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?”

Ond wyddoch chi beth oedd y geiriau cyntaf i’r Iesu eu llefaru wrth y disgyblion wedi iddo atgyfodi? Ai geiriau buddugoliaethus oeddent tebyg i’r canlynol: “Halelwia! Yr wyf wedi gorchfygu marwolaeth ac wedi trechu’r bedd,” gyda sain ffanffer i’w chlywed yn y cefndir a llu o angylion yn canu’n nefolaidd o’i gwmpas? Neu efallai a fu iddo ddweud rywbeth fel hyn, “Henffych well gyfeillion! Gwelwch gymaint yr wyf i wedi dioddef trosoch, yr hen bechaduriaid gwael!” Wel, naddo’n wir a diolch am hynny! Wrth ddarllen yr hanesion am ymddangosiadau’r Crist atgyfodedig, sylweddolwn yn fuan iawn mai geiriau digon di-fflach a di-gyffro oedd ei eiriau ar Sul y Pasg cyntaf hwnnw.

Yn yr efengyl yn ôl Mathew geiriau cyntaf yr Iesu wrth ei ddisgyblion oedd, “Henffych well…Peidiwch ag ofni, ewch a dywedwch wrth fy mrodyr am fynd i Galilea, ac yno fe’m gwelant i.” Ei eiriau yn yr efengyl yn ôl Luc wrth y ddau oedd ar ei ffordd i Emaus oedd, “Beth yw’r sylwadau hyn yr ydych yn cyfnewid wrth gerdded?” Ac yn yr efengyl yn ôl Ioan, holodd Iesu gwestiwn wrth ddod wyneb yn wyneb â’r Mair ddagreuol, “Wraig, pam yr wyt ti’n wylo?”

Er bod ei eiriau’n ymddangos yn ddigon di-gyffro, ceir un peth yn gyffredin ym mhob un o’r adroddiadau amdano yn siarad am y tro cyntaf wedi’r atgyfodiad. Mae’r Crist yn cyfarfod a’i gyfeillion ym mha le bynnag y maent ac nid yw’n anwybyddu eu cyflwr emosiynol bregus. Nid yw’n dweud y drefn wrth y disgyblion am iddynt ei wadu a’i adael; nid yw’n dweud wrth y ddau ar y ffordd i Emaus bod angen iddynt droi yn ôl ar eu hunion i Jerwsalem ac i dynnu’r wep ddiflas oddi ar eu hwynebau ac nid yw’n dweud wrth Mair i sychu ei dagrau ac i ddod at ei hunan. O na! Yr hyn mae’r Iesu yn ei wneud yw siarad yn dyner ac yn dawel gyda phob un o’i gyfeillion a’i ddilynwyr gan ddangos sensitifrwydd i’w cyflwr bregus wedi’r croeshoeliad ac o wneud hyn mae’n llwyddo i gyffwrdd â chalonnau bob yr un ohonynt. Os oedd ei eiriau cyntaf wedi’r atgyfodiad yn rhai di-fflach a chyffredin roeddent yn eiriau a lwyddodd i gyfleu grym iachaol yr Atgyfodiad mewn ffordd dyner a sensitif a fu’n fodd i adfer y berthynas rhyngddo a’i ddilynwyr.

Yn yr un modd fe ddaw atom ni heddiw yn ei wedd atgyfodedig gan ddangos yr un tynerwch a sensitifrwydd i’n holl hanghenion dwys a chymhleth a hynny er mwyn ein hadfer ninnau i berthynas gyflawn ag Ef, ein Harglwydd byw.

Pasg Hapus

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

## CALENDR MIS EBRILL 2010

| **Cyhoeddwr y Mis :**<br>**Mrs Mairwen Jones** | **Organydd y Mis : Mrs Mair Evans** | |
|---|---|---|
| 4 Ebrill 2.30yp | Oedfa Gymun Undebol Sul y Pasg | Bwrdd y Cymun:<br>Dafydd ac Ellen Sheppard |
| 11 Ebrill 10.30yb | Oedfa Deuluol Gweinidog | |
| 18 Ebrill 2.30yp | Oedfa Bregethu Y Parchedig Peter Thomas | Gofal y te: |
| 25 Ebrill 10.30yb | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregeth: Gweinidog | |
| 2 Mai 2.30yp | Oedfa Gymun Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br>Sue a Mervyn Hughes |

**I'CH DYDDIADUR**

12 Ebrill : Cinio Cymorth Cristnogol : Festri Seion: 12.00-1.30yp. Croeso Cynnes.
14 Ebrill : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
14 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa : Capel y Morfa am 7yh
17 Ebrill : Cyngerdd ym Methel yng nghwmni Côr Ger-y-Lli, Rhys Taylor, Bois y Fro, Esther Ifan a Seren Taylor
21 Ebrill : Cymdeithas Bethel am 2.00yp
21 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa yn Horeb, Penrhyn-coch am 7yh
27 Ebrill : Cwrdd Gweddi Misol: Festri Horeb am 7.30yh
28 Ebrill : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys.
28 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa ym Methel, Aberystwyth am 7yh
5 Mai: Rihyrsal y Gymanfa yng Nghapel y Garn am 7yh
15 Mai : Cymdeithas Emynau Cymru: Ysgol Undydd ym Methel, Aberystwyth.
18-19 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhisga, Bancffosfelen.
19 Mehefin : Taith Cymdeithas y Penrhyn i Fro Morgannwg
11 Gorffennaf : Gwibdaith Bethel a Horeb i Silian. Bydd te yn dilyn yr oedfa. Enwau i Judith os gwelwch yn dda.
11-14 Gorffennaf : Cyfarfodydd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel, Llanelli.
2 Hydref – 10 Hydref : Taith Dewi Sant. Cenhadaeth Gristnogol yn ardal Aberystwyth a'r cylch.
6 Hydref : Cyfarfod Diolchgarwch yng nghwmni Tecwyn Ifan yn Neuadd Penrhyn-coch

**LLOFFION**

**Llongyfarchiadau** gwresocaf i Gwenan a Richard ar ddod yn nain a thaid.

**Gwirfoddolwyr:** Bydd angen gwirfoddolwyr o'r Clybiau Sul ardal Aberystwyth ar ddydd Llun (nid Mawrth fel y nodwyd yn Heuwr mis Mawrth) ac o bosib dydd Sadwrn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron. Daw mwy o fanylion yn y man.

**Cyfamodi** : Mae nifer o'n haelodau sydd yn talu treth yn cyfamodi eu rhoddion i Horeb. Mae hyn yn golygu y gall y Trysorydd, ar ran Horeb, hawlio 25c yn ychwanegol am bob punt a gyfrennir. Os ydych yn talu treth a fyddech yn barod i ystyried cyfamodi eich rhoddion i Horeb? Cewch fwy o fanylion gan y Trysorydd.